Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhiw Bechan
# Tregynon
# Powys
# SY16 3EH

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Rhiw Bechan ym mhentref Tregynon yn awdurdod lleol Powys. Mae 156 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae gan yr ysgol chwe dosbarth oedran cymysg, ac mae tri o'r rhain yn ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2009. Mae'r ysgol wedi cael pennaeth dros dro, sydd wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Rhiw Bechan yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,567 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £7,431 a'r isafswm yw £3,035. Mae Ysgol Rhiw Bechan yn safle 46 allan o'r 84 ysgol gynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini
- Mae'n darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol
- Mae'n cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu'r Gymraeg fel ail iaith

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol, sy'n dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
- Mae pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'u rôl ac yn gweithio'n dda fel tîm
- Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus
- Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn cynnwys pob aelod o staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr a gwnânt ddefnydd priodol o ystod o dystiolaeth uniongyrchol gan roi gwybodaeth dda i'r ysgol am ei pherfformiad ei hun
- Ceir ystod dda o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella sillafu, atalnodi, llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig yn briodol ar draws y cwricwlwm

A3 Parhau i wella cyfraddau presenoldeb disgyblion

A4 Rhannu'r arferion addysgu effeithiol sy'n bodoli yn yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r athrawon yn addasu gwaith a'r profiadau dysgu i fodloni anghenion a galluoedd pob disgybl

A5 Gwella'r defnydd o farcio i alluogi disgyblion i ymateb i sylwadau athrawon ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A6 Parhau i ddatblygu rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â lefel dda o fedrau ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac oedolion. Mae llawer ohonynt yn siarad yn dda yn y dosbarth ac maent yn trafod testunau mewn gwaith pâr a grŵp yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn trafod y paratoi ar gyfer gwneud cebabau ffrwythau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar eu hathro ac ar ei gilydd gan ddangos parch a chwrteisi. Maent yn ffocysu'n dda ar dasgau ac yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus yn ystod gweithgareddau dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu strategaethau effeithiol i ddatrys geiriau anghyfarwydd ac maent yn mwynhau darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ddarllenwyr eithaf hyderus ac maent yn darllen ar goedd o flaen pobl eraill yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn briodol yng nghyfnod allweddol 2 ac, erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn gywir, yn rhugl a gyda mynegiant da. Maent yn trafod cynnwys llyfrau'n dda a gallant roi rhesymau ynglŷn â'u hoff ddewis o awduron. Gall dysgwyr sy'n fwy abl frasddarllen a bwrw golwg dros destun yn gyflym i gael gwybodaeth o destun. Mae hyn yn wir yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd ar gyfer y disgyblion hynny mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau ysgrifennu yn iaith y dosbarth. Mae disgyblion iau yn defnyddio brawddegau syml yn dda i gyfleu eu syniadau, gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol a strwythurau brawddeg cyfarwydd yn briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ym meysydd eraill y cwricwlwm a defnyddiant eirfa briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ar arbrawf gwyddoniaeth ar y synhwyrau dynol. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio geiriau diddorol yn eu gwaith a gallant ysgrifennu'n estynedig mewn ystod addas o *genres*. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod eang o wahanol ddibenion. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu creadigol disgyblion yn llai datblygedig. Erbyn Blwyddyn 6, gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu'n llwyddiannus i fynegi eu syniadau a'u barn, er enghraifft wrth ysgrifennu fersiwn fodern o Macbeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio ac ailddrafftio eu hysgrifennu yn dda i wella'r cynnwys. Mae hyn eto'n wir yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd ar gyfer y disgyblion hynny mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae lleiafrif o ddisgyblion yn aml yn camsillafu geiriau cyffredin ac nid ydynt yn defnyddio atalnodi yn gyson.

Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion yn amrywio’n sylweddol ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd da ac yn eu defnyddio’n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau meddwl yn dda i ddatrys problemau ac maent yn cymhwyso’r rhain yn briodol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth gyfrifo costau rhannau a gwasanaethau yn eu garej awyr agored. Gall llawer ohonynt lunio graffiau yn briodol i ddangos nifer y cerbydau sy’n mynd heibio’r ysgol fel rhan o’u harolwg traffig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau rhifedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o rif ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifiadol yn briodol mewn amrywiaeth o bynciau. Gall y rhan fwyaf ohonynt gofnodi a dehongli data yn llwyddiannus ar ffurf graffiau ac arbrofion gwyddonol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae disgyblion mwy abl yn defnyddio eu medrau rhifiadol yn llwyddiannus mewn cyd-destunau realistig, er enghraifft wrth ddylunio a chyfrifo costau byngalo newydd.

Mewn dosbarthiadau lle defnyddir Saesneg fel y brif iaith i roi cyfarwyddyd, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg ac maent yn mwynhau siarad yr iaith. Gwnânt gynnydd da o ran dysgu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn dechrau defnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir i sgwrsio. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml yn gywir gan ddilyn patrwm sylfaenol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn deall geiriau ac ymadroddion cyffredin a gallant ymateb yn briodol i gwestiynau neu gyfarwyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn hyderus, yn ysgrifennu brawddegau’n gywir ac yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ar draws ystod addas o *genres*. Mae disgyblion hŷn yn dechrau defnyddio eu gwybodaeth am strwythurau brawddeg i ysgrifennu darnau estynedig, er enghraifft llythyr i gylchgrawn plant yr Urdd. Mae eu gallu i sgwrsio yn Gymraeg gan ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd yn dda a gallant ddisgrifio’r hyn y maent wedi ei ddarllen yn dda.

Ar draws yr ysgol, nid yw gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau meddwl ar draws ystod o weithgareddau dysgu wedi ei ddatblygu’n ddigonol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’u targedau.

Mae gan yr ysgol niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob dosbarth sy’n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol wedi’i feincnodi o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig a’r deilliant uwch mewn Saesneg a chyfathrebu a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf a’r 50% is yn bennaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn Cymraeg a chyfathrebu wedi dangos gwelliant dros y pedair blynedd ddiwethaf ac mae’r ysgol yn y 25% uchaf yn 2015 ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio’n fawr. Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae’r ysgol yn bennaf wedi bod yn y 50% is a’r 25% isaf ym mhob un o’r pedwar pwnc.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn debyg i ddeilliannau eu cyfoedion ar y cyfan.

**Lles: Digonol**

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgyblion yn gwybod at bwy y gallant droi os ydynt yn teimlo'n ofidus am yr ysgol neu faterion eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Dangosant hyn trwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau er mwyn cadw'n heini.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn ystod eang o weithgareddau dysgu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n ddiwyd am gyfnod priodol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd. Gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at eu gwersi ac at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud penderfyniadau sy'n briodol i'w hoedran am gynnwys themâu trwy drafod a thrwy greu mapiau meddwl syml.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn effeithiol, ac yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella'u hysgol. Er enghraifft, maent wedi cymryd rhan flaenllaw mewn dylanwadu ar bolisi'r ysgol ar e-ddiogelwch. Mae'r cyngor eco yn tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol ac yn annog eu cyfoedion i ofalu am eu hamgylchedd trwy ailgylchu a lleihau'r defnydd o ynni. Mae disgyblion yn trefnu digwyddiadau'n rheolaidd i godi arian ar gyfer elusennau amrywiol a gwnânt ddefnydd da o'r gymuned leol i'w cefnogi.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae mentrau diweddar wedi arwain at welliant mesuradwy ym mhresenoldeb disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu yn seiliedig ar gwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gyda'i gilydd yn dda i wneud yn siŵr bod disgyblion yn adeiladu ar ddysgu cynharach yn briodol, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid ydynt bob amser yn trosi'r cynllunio da hwn i'w gwersi. Mae hyn weithiau, er enghraifft, yn rhwystro datblygiad medrau meddwl a rhifedd disgyblion trwy sefyllfaoedd datrys problemau.

Mae athrawon yn ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol mewn cynlluniau tymhorol yn effeithiol. Maent yn darparu ystod addas o gyfleoedd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau a *genres* a datblygu eu medrau rhifedd mewn meysydd eraill. Mae bron pob un o'r athrawon yn arfarnu eu cynllunio yn briodol.

Mae athrawon yn trefnu'r rhan fwyaf o grwpiau ymyrraeth yn dda i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a nodwyd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn dda ar draws yr ysgol.

Mae ystod o ymweliadau addysgol a phrofiadau preswyl yn gwella'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o glybiau, fel clybiau Ffrangeg, chwaraeon a garddio, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn dda.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd da o staff sy'n siarad Cymraeg ac athrawon bro i ddatblygu medrau iaith disgyblion yn gynnar. Mae ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb, fel Castell y Waun, yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion a'u diwylliant a hanes yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn datblygu eu gwybodaeth am ddiwylliant a thraddodiadau trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol Cymreig lleol fel Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn briodol trwy astudio diwylliannau, crefyddau a thraddodiadau eraill. Mae'r gwaith ar Ghana yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion byd-eang yn briodol hefyd. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o ailgylchu a ffyrdd o arbed ynni yn datblygu'n ddigonol.

**Addysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan athrawon wybodaeth dda a chyfoes am y pynciau y maent yn eu haddysgu, ac mae llawer ohonynt yn cyflwyno ystod addas o brofiadau dysgu diddorol ar gyfer disgyblion. Defnyddiant amrywiaeth briodol o strategaethau addysgu yn dda i ennyn diddordeb disgyblion ac ymgysylltu â nhw. Yn yr arfer orau mewn rhai dosbarthiadau, mae athrawon yn gosod tasgau heriol, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn addasu'r tasgau'n ddigon da i herio pob disgybl a sicrhau eu bod yn cyflawni cystal ag y gallent. Mewn rhai dosbarthiadau, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro datblygiad medrau disgyblion wrth iddynt ysgrifennu'n annibynnol. Mae llawer o athrawon yn gosod amcanion dysgu clir, sy'n helpu disgyblion i ddeall ffocws y wers. Wedyn, defnyddiant y rhain yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion. Mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r strategaethau addysgu mwyaf priodol i gyd-fynd ag oedran a gallu'r disgyblion. Mewn llawer o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llawn ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Ceir perthnasoedd gweithio da rhwng disgyblion a staff ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Mae rheolaeth ystafell ddosbarth effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn sicrhau ymddygiad da.

Mae bron pob un o’r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Yn yr arfer orau mewn llawer o ddosbarthiadau, mae sylwadau ysgrifenedig yn canolbwyntio’n dda ar helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Er bod llawer o athrawon yn gosod targedau gwella priodol ar gyfer eu disgyblion, nid yw’r rhain bob amser yn canolbwyntio’n ddigonol ar fodloni eu hanghenion unigol. Megis dechrau datblygu y mae’r defnydd o hunanasesu ac asesu cyfoedion gan ddisgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac mae’n rhy gynnar i fesur ei effaith.

Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddata i ddadansoddi a monitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn nodi’r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn dda ac yn cynllunio’n effeithiol i fodloni eu hanghenion. Ceir trefniadau cryf i safoni asesiadau athrawon ac maent yn helpu i sicrhau deilliannau cywir.

Mae adroddiadau i rieni yn addysgiadol ac yn darparu gwybodaeth briodol am gynnydd a chyflawniadau disgyblion. Mae’r adroddiadau’n cynnwys targedau defnyddiol ar gyfer gwella ac maent yn bodloni gofynion statudol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar ar gyfer pob disgybl. Ceir perthnasoedd gweithio cryf rhwng bron pob un o’r staff a’r disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael gofal da. Mae’r pwyslais cryf ar addysgu disgyblion am werthoedd a hawliau yn datblygu eu hymwybyddiaeth foesol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae’r ysgol yn gwella datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda, er enghraifft trwy gyflogi athrawon cerddoriaeth arbenigol i ddarparu amser digyswllt a chymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol 2015. Mae gweithredoedd o gyd-addoli yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol, ac yn datblygu eu synnwyr o fyfyrio yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff disgyblion gyfleoedd da i gymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo ffordd weithredol ac iach o fyw mewn amrywiaeth o glybiau buddiol ar ôl yr ysgol. Mae ymweliadau rheolaidd gan wasanaethau arbenigol fel yr heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i fyw yn iach a sut i gadw’n ddiogel ar-lein.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cymorth priodol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei angen. Maent yn darparu ystod dda o ymyriadau, sy’n canolbwyntio’n dda i fodloni anghenion unigolion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, sy’n darparu cymorth ac arweiniad effeithiol pan fydd angen. Mae’r cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn trefnu darpariaeth yn dda ac fe geir cysylltiadau cryf â rhieni, yn enwedig wrth gynllunio ac adolygu cynlluniau addysg unigol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion mewn dysgu.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o fesurau i fonitro a chynnal presenoldeb disgyblion.

Mae hyn wedi sicrhau gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gylchlythyrau a gwefan yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd moesol da ac ethos o barch yn dda ac mae hyn o fudd i bob disgybl. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn annog disgyblion i ddangos parch a goddefgarwch at bobl eraill. Mae staff yn sicrhau eu bod yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae disgyblion yn falch i ddangos manteision y fenter ymddygiad cadarnhaol i ysgolion eraill, ac mae'r fenter wedi cael ei hymgorffori'n llwyddiannus ar draws yr ysgol erbyn hyn. Rhoddir yr un cyfle i bob un o'r disgyblion fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd ar draws yr ysgol, gan gynnwys clybiau allgyrsiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei thir yn dda i wella dysgu a datblygiad corfforol disgyblion. Gall disgyblion fynd i ardaloedd coediog a chlwb garddio lle maent yn tyfu eu llysiau eu hunain. Mae hyn yn gwella'u gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a'u lles cyffredinol. Mae arddangosfeydd dwyieithog yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol. Mae adeiladau'r ysgol yn lân, yn cael eu cynnal yn dda ac yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth yr ysgol, mae'r pennaeth dros dro a'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac mae ganddynt ffocws clir ar godi safonau. Maent yn cynnwys pob un o'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr yn dda i gyflawni eu gweledigaeth i symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae'n hyrwyddo ethos cadarnhaol a gofalgar yn llwyddiannus. Mae hi wedi sicrhau bod gan yr ysgol weledigaeth gydlynus a strategol gytûn ac mae wedi gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r staff. O ganlyniad, mae safonau'n dechrau gwella mewn llawer o feysydd.

Mae gan bob un o'r staff ddisgrifiadau swydd clir ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u meysydd datblygiad penodol. Mae rheoli perfformiad yn briodol ar gyfer athrawon yn sicrhau bod pob un o'r staff yn gwbl ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol a'i thargedau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw da i ddatblygu'r iaith Gymraeg, rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith yn llwyddiannus ac mae ei chysylltiad â chymunedau dysgu proffesiynol wedi symud yr ysgol yn ei blaen.

Mae cadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithiol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn canolbwyntio ar wella safonau. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o ddata perfformiad ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Trwy'r ymweliadau hyn a'u rhan yn y broses hunanarfarnu, maent yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol yn dda a'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w datblygu. Maent yn dibynnu ar wybodaeth a gânt oddi wrth y pennaeth dros dro a'r awdurdod lleol i lunio'u barnau. O ganlyniad, mae rôl y llywodraethwyr mewn monitro darpariaeth a safonau yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer hunanarfarnu sy'n rhoi ystyriaeth dda i ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys safbwyntiau disgyblion a rhieni, tueddiadau yn nata'r ysgol a monitro gwersi a llyfrau disgyblion. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae'r ysgol wedi sefydlu amserlen gynhwysfawr ar gyfer monitro blynyddol sy'n sicrhau bod pob un o'r rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys casglu safbwyntiau a meddyliau disgyblion. Er enghraifft, cafodd disgyblion o'r grwpiau targed mwy abl eu cynnwys mewn arfarnu gwersi, ac o ganlyniad, lluniodd yr athrawon ddisgrifwyr lefel yn addas ar gyfer plant i helpu i godi safonau.

Mae'r cyswllt rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn glir. Mae'r cynllun yn cynnwys ffocws cryf ar wella deilliannau disgyblion ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant, graddfeydd amser a chyfrifoldebau clir. Mae'r staff ac aelodau o'r corff llywodraethol yn trafod cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd priodol. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn gallu monitro cynnydd a dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o bartneriaethau gweithio effeithiol sy'n cyfrannu'n gryf at godi safonau ac yn cyfoethogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni ac yn cyfathrebu'n effeithiol trwy gylchlythyrau, cyfarfodydd a'r system e-bost a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn sicrhau ei bod yn rhoi'r newyddion diweddaraf i bawb am faterion yr ysgol ac mae rhieni'n teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi gan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol â'r lleoliad cyn-ysgol ar y safle, sydd wedi arwain at drefniadau pontio cryf ar gyfer disgyblion newydd. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned, sy'n darparu ystod o brofiadau gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae datblygu'r ardaloedd astudio yn yr awyr agored a'r defnydd ar y cyd o'r neuadd a'r cyfleusterau cymunedol wedi cyfoethogi profiadau dysgu bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a chlystyrau o ysgolion yn effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio'n llwyddiannus i rannu arferion effeithiol a datblygu portffolios ar gyfer cymedroli a safoni asesiadau athrawon o waith disgyblion yn gywir. Mae disgyblion yn elwa ar ystod dda o weithgareddau yn

seiliedig ar y cwricwlwm yn ystod wythnosau pontio gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth ar gyfer y cam nesaf yn nysgu’r disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o staff sydd â chymwysterau addas i roi’r cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus.  Gwna ddefnydd effeithiol o gynorthwywyr ystafell ddosbarth ac fe wnânt gyfraniad gwerthfawr iawn o ran darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion.  Mae’r pennaeth dros dro yn gwneud defnydd da o bob un o’r staff i fodloni anghenion pob disgybl.  Mae hi wedi sefydlu ethos tîm cryf, ac mae’n llwyddo i sicrhau bod gan y staff ffocws clir ar godi safonau disgyblion.  Mae trefniadau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.  Mae defnyddio athrawon arbenigol i weithio mewn dosbarthiadau yn galluogi parau o athrawon i ddefnyddio’r amser yn effeithlon i gynllunio gyda’i gilydd.  Mae hyn yn gwella’r cysondeb mewn cynllunio ac asesu rhwng athrawon sy’n addysgu’r un grwpiau blwyddyn.

Ceir trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu, sy’n cynnwys gosod targedau priodol ar eu cyfer, wedi’u cysylltu â’r blaenoriaethau a nodwyd.  Mae’r ysgol yn darparu hyfforddiant i bob un o’r staff i ymateb i anghenion a nodwyd trwy’r broses rheoli perfformiad.  Mae llawer o aelodau o staff yn ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda ac yn cymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol priodol.

Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o’r grant amddifadedd disgyblion i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion targedig, er enghraifft trwy gefnogi datblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae’r pennaeth, y corff llywodraethol a’r awdurdod lleol yn rheoli’r gyllideb yn llwyddiannus er mwyn bodloni’r targedau a amlinellir yng nghynllun datblygu’r ysgol. O ystyried safonau cyflawniad disgyblion dros gyfnod, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662129 - Ysgol Rhiw-Bechan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 171 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 14 | 26 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 57.1 | 73.1 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 13 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 60.0 | 76.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 7.7 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 13 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 92.3 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 23.1 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 26 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.4 | 76.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 15.4 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 26 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 42.3 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662129 - Ysgol Rhiw-Bechan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 171 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 26 | 21 | 23 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 76.9 | 95.2 | 78.3 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 21 | 23 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.5 | 100.0 | 87.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | 66.7 | 30.4 | 45.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 7 | 10 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 100.0 | 80.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 14.3 | 0.0 | 58.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 21 | 23 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.5 | 100.0 | 87.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.8 | 57.1 | 39.1 | 54.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 21 | 23 | 24 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 76.9 | 95.2 | 87.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.6 | 42.9 | 43.5 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Further information is available from the Welsh Government My Local School website at the link below.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 51 | 50<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 51 | 49<br>96%<br>92% | 2<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 51 | 51<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 51 | 49<br>96%<br>97% | 2<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 51 | 48<br>94%<br>96% | 3<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 51 | 50<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 51 | 51<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 51 | 50<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 50 | 46<br>92%<br>91% | 4<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 51 | 48<br>94%<br>95% | 3<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 50 | 38<br>76%<br>77% | 12<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 51 | 42<br>82%<br>84% | 9<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 45 | 27 | 18 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 45 | 34 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 22% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 42 | 28 | 14 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 43 | 24 | 18 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 56% | 42% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 40 | 22 | 17 | 0 | 1 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 42% | 0% | 2% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 43 | 23 | 20 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu'n dda. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 44 | 29 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 41 | 17 | 21 | 3 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 41% | 51% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 44 | 26 | 15 | 1 | 2 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 59% | 34% | 2% | 5% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 44 | 28 | 15 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 64% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 44 | 34 | 8 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 18% | 5% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 20 | 13 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 42 | 23 | 16 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 38% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 43 | 27<br>63% | 16<br>37% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 42 | 23<br>55% | 16<br>38% | 3<br>7% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 42 | 26<br>62% | 16<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 16<br>53% | 13<br>43% | 0<br>0% | 1<br>3% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 42 | 25<br>60% | 15<br>36% | 2<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 42 | 26<br>62% | 15<br>36% | 0<br>0% | 1<br>2% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Alun Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Allyson Whitticase | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.